**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – RHANNU DATA PERSONOL RHWNG GTADC A'R ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL, PROSESAU DISGYBLU AC ACHOSION DISGYBLU HANESYDDOL**

**Am yr Adolygiad**

Yn dilyn adroddiad Newyddion ITV ar y 12fed Rhagfyr 2022, pan roddodd tystion enghreifftiau o aflonyddu rhywiol, ymddygiad amhriodol a diwylliant amddiffynnol yng ngweithle Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ("GTADC"), ymrwymodd y Prif Swyddog Tân i gomisiynu adolygiad annibynnol o ddiwylliant, prosesau disgyblaeth, ac achosion disgyblaeth hanesyddol (yr "Adolygiad").

Ym mis Chwefror 2023, penodwyd Fenella Morris CB yn gadeirydd annibynnol yr Adolygiad (y "**Cadeirydd**"). At ddibenion yr hysbysiad preifatrwydd hwn mae cyfeiriadau at yr Adolygiad drwy gydol yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys y Cadeirydd.

Gwelir rhagor o fanylion am amcanion yr Adolygiad yma ac mae'r cylch gorchwyl ar gael yma.

**Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut a pham y bydd GTADC (y cyfeirir ato hefyd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn fel "**ni**") yn rhannu ac yn datgelu data personol y mae'n ei gadw i'r Adolygiad ("**Data Personol a Rennir**") ac mae'n esbonio'r hawliau perthnasol o dan ddeddfwriaeth diogelu data sy'n gymwys i'r wybodaeth a ddarparwn i'r Adolygiad.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i rannu data ar gyfer yr Adolygiad yn unig, ac mae'n atodol i hysbysiad preifatrwydd GTADC ar gyfer gweithwyr y gellir ei weld ar fewnrwyd GTADC neu ar gais yn ogystal â'r hysbysiad preifatrwydd cyffredinol sydd i'w weld yma.

**Casglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan yr Adolygiad a defnyddio Data Personol a Rennir gan yr Adolygiad**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn mynd i'r afael â data personol y mae GTADC yn ei rannu â'r Adolygiad yn unig.

Mae'r Adolygiad yn annibynnol ar GTADC. A bydd yn penderfynu sut mae'n defnyddio unrhyw Ddata Personol a Rennir gan GTADC ac unrhyw wybodaeth y mae'n ei chasglu neu'n ei derbyn yn uniongyrchol o ffynonellau eraill – mae'r Adolygiad yn rheolydd data annibynnol.

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, bydd staff cyfredol a chyn-aelodau staff, rheolwyr, aelodau GTADC, cyrff cynrychioliadol a/neu asiantaethau partner allanol, yn cael eu cyfweld ac yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau perthnasol drwy eu profiadau o fwlio ac aflonyddu canfyddedig, gan gynnwys aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu neu brofiadau eraill o ymddygiad amhriodol. Gellir amlinellu'r profiadau hynny wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, drwy arolygon staff, grwpiau ffocws neu ymweliadau â gorsafoedd

Bydd yr Adolygiad yn gyfrifol am reoli'r ffordd y mae'n defnyddio data personol ac am sicrhau ei fod yn deg ac yn gyfreithlon. Felly, sylwch *nad* yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth a gesglir yn uniongyrchol gan yr Adolygiad (h.y. nad yw'n cael ei darparu gan GTADC i'r Adolygiad) nac yn rhoi manylion sut y bydd yr Adolygiad ei hun yn defnyddio'r Data Personol a Rennir y mae'n ei dderbyn gan GTADC. Gweler hysbysiad preifatrwydd yr Adolygiad ei hun ( sydd i'w cael yma) sy'n rhoi rhagor o fanylion am gasglu a/neu ddefnyddio data personol o'r fath.

**Pam fod angen i GTADC ddatgelu gwybodaeth i'r Adolygiad**

Mae GTADC wedi ymrwymo i gefnogi'r Adolygiad ac i ddysgu a gwneud gwelliannau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adolygiad.

Er mwyn sicrhau bod yr Adolygiad yn effeithiol a gallu ystyried yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn ystyried y materion perthnasol yn llawn ar sail wybodus i gynhyrchu adroddiad ystyrlon a fydd yn ei dro yn galluogi GTADC i elwa'n llawn o ganfyddiadau'r Adolygiad, mae angen i GTADC ddatgelu gwybodaeth i'r Adolygiad yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Bydd gwybodaeth o'r fath yn cynnwys data personol sy'n ymwneud ag unigolion penodol.

**Pa wybodaeth y gellir ei rhannu â'r Adolygiad**

Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi gwybodaeth benodol y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys:

- polisïau, gweithdrefnau a systemau sy'n ymwneud â disgyblaeth staff, bwlio, aflonyddu, cwynion, pryderon chwythu'r chwiban, urddas yn y gwaith, cwynion, cyfweliadau ymadael, ac unrhyw brosesau eraill ar gyfer codi cwynion a phryderon am ymddygiad a safonau
- adroddiadau hanesyddol a chwynion am achosion o fwlio, aflonyddu, pryderon chwythu'r chwiban, a chwynion am urddas yn y gwaith, a chyfweliadau ymadael, ac unrhyw gwynion a/neu gwynion perthnasol eraill yr ymdriniwyd â hwy ac yr ymatebwyd iddynt gan GTADC.
- achosion disgyblu staff hanesyddol yr ymdriniwyd â hwy gan GTADC, gan gynnwys manylion ynghylch a oedd unrhyw gamau pellach (cadarnhaol neu negyddol) mewn perthynas â'r unigolion y cwynwyd amdanynt (er enghraifft, unrhyw achosion disgyblu pellach yn eu herbyn, unrhyw batrymau ymddygiad a// neu unrhyw hyrwyddiadau) a sut mae hynny'n effeithio ar ddiwylliant

Gallai'r Cylch Gorchwyl, o bryd i'w gilydd, gael ei ddiweddaru neu ei ddiwygio a gellir diweddaru neu ddiwygio cwmpas y wybodaeth y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried. Os felly, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth o'r fath a bydd GTADC yn diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn unol â hynny.

**Data personol pwy y gellir ei ddatgelu i'r Adolygiad**

- Gallai'r Data Personol a Rennir gynnwys data personol yn ymwneud â:
- staff cyfredol GTADC
- staff blaenorol GTADC
- unigolion sydd wedi gwneud cwynion, wedi chwythu'r chwiban, wedi cyflwyno cyfweliadau ymadael, neu wedi codi cwynion i GTADC
- unigolion sydd wedi bod yn destun cwynion, chwythu'r chwiban, cyfweliadau ymadael, neu gwynion a wnaed i GTADC
- unigolion sydd wedi bod yn destun camau disgyblu neu ymchwiliadau a gynhaliwyd gan GTADC
- unigolion sydd wedi cyfrannu fel tystion neu bartïon eraill at gwynion, chwythu'r chwiban, cyfweliad ymadael, neu gwynion a wnaed i GTADC

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y caiff y Cylch Gorchwyl ei ddiweddaru neu ei ddiwygio a gallai cwmpas y wybodaeth y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried gael ei ddiweddaru neu ei ddiwygio ac felly efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth gan unigolion eraill. Os felly, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth o'r fath a bydd GTADC yn diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn unol â hynny.

**Pa ddata personol y gellir ei ddatgelu i'r Adolygiad**

Achos natur yr Adolygiad, gallai'r Data Personol a Rennir y gallwn ei rannu â'r Adolygiad gynnwys:

- enw
- oedran neu ddyddiad geni
- rhyw
- rôl, teitl swydd, proffil rôl a/neu deitl swydd
- statws cyflogaeth
- cofnodion cymwysterau, perfformiad a hyfforddiant
- manylion profiad
- cofnodion disgyblu
- manylion cwynion, pryderon, cwynion, cyfweliadau ymadael (gan gynnwys manylion canlyniadau ac unrhyw gamau a gymerwyd neu na chymerwyd)
- gwybodaeth am iechyd corfforol neu feddyliol, anafiadau a/neu driniaeth feddygol
- tarddiad hiliol neu ethnig
- barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undeb llafur
- bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol
- erlyniad(au) troseddol, collfarn(au) a/neu ddedfryd(au)
- cyhuddiadau na arweiniodd at erlyniad
- troseddau gwirioneddol neu honedig
- adroddiadau digwyddiad nad oedd yn arwain at gyhuddiad

O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y caiff y Cylch Gorchwyl ei ddiweddaru neu ei ddiwygio a gallai cwmpas y wybodaeth y bydd yr Adolygiad yn ei hystyried gael ei ddiweddaru neu ei ddiwygio ac felly gallai fod angen rhannu rhagor o wybodaeth. Os felly, bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i unrhyw wybodaeth o'r fath a bydd GTADC yn diweddaru'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn unol â hynny.

**Pwrpas a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu**

Y brif sail gyfreithiol rydym yn dibynnu arni i rannu'r Data Personol a Rennir gyda'r Adolygiad yw erthygl 6(1)(f) o GDPR y DU - budd cyfreithlon. Mae hyn yn caniatáu i ddata personol gael ei rannu lle bo angen ar gyfer buddiannau cyfreithlon GTADC neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti, ar yr amod nad yw'r buddiannau hyn yn cael eu trechu gan hawliau sylfaenol yr unigolion. Mae buddiannau cyfreithlon GTADC yn cynnwys:

- sicrhau bod yr Adolygiad yn effeithiol ac yn gallu ystyried yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn ystyried y materion perthnasol yn llawn ar sail wybodus i gynhyrchu adroddiad ystyrlon
- caniatáu i GTADC elwa'n llawn ar ganfyddiadau'r Adolygiad
- caniatáu i GTADC nodi a oes unrhyw faterion diwylliannol o fewn y sefydliadau a chanfod atebion a mynd i'r afael ag argymhellion ar gyfer gwella

Efallai bydd GTADC hefyd yn dibynnu ar fuddiannau/les trydydd parti, gan gynnwys yr unigolion hynny a fynegodd bryderon i GTADC a buddiant cyfiawn yr Adolygiad ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau bod pryderon a godir gan unigolion yn cael eu hymchwilio a'u trin yn briodol
- sicrhau bod gan yr Adolygiad y gallu i archwilio a chynhyrchu dadansoddiad cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r materion sy'n ymwneud â'r Cylch Gorchwyl
- gallu'r Adolygiad i wneud argymhellion cadarn mewn perthynas â'r diwylliant o fewn GTADC
- gallu'r Adolygiad i ddarparu a chyhoeddi adroddiadau

Er y bydd GTADC yn dibynnu'n bennaf ar fudd cyfiawn fel sail gyfreithlon ar gyfer rhannu'r Data Personol a Rennir gyda'r Adolygiad, gallai GTADC hefyd ddibynnu ar y seiliau cyfreithlon canlynol mewn rhai achosion:

- bod rhannu'r Data Personol a Rennir yn angenrheidiol er mwyn cyflawni contract y mae gwrthrych y data perthnasol yn barti iddo (e.e. contract cyflogaeth unigolyn);
- mae angen rhannu Data Personol a Rennir er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y mae GTADC yn ddarostyngedig iddynt (gan gynnwys cyfreithiau iechyd a diogelwch yn y gwaith);
- prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol unigolion
- mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a roddwyd i GTADC

Ni fydd GTADC fel arfer yn dibynnu ar ganiatâd i ddatgelu'r Data Personol a Rennir i'r Adolygiad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion lle bo'n briodol, bydd GTADC yn dibynnu ar ganiatâd i ddatgelu'r Data Personol a Rennir i'r Adolygiad.

Rydym wedi cynnal asesiad i sicrhau bod y camau yr ydym yn eu cymryd i rannu Data Personol gyda'r Adolygiad yn cael eu cymryd mewn modd teg, ac i sicrhau bod hawliau a phreifatrwydd unigolion yn cael eu hystyried mewn modd sensitif. Bydd y Data Personol a Rennir yn ddigonol i alluogi'r Adolygiad i gyflawni ei amcanion.

Data categori arbennig

Lle mae'r Data Personol a Rennir y mae angen i ni ei ddatgelu i'r Adolygiad yn cynnwys gwybodaeth sensitif (a elwir yn "ddata categori arbennig", megis gwybodaeth am iechyd (iechyd corfforol neu feddyliol neu anableddau), cyfeiriadedd rhywiol, hil neu darddiad ethnig, credoau crefyddol neu ddata am droseddau troseddol), bydd angen i ni hefyd fodloni amodau pellach o dan erthygl 9 o GDPR y DU ac Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018. Y prif amod y byddwn yn dibynnu arno i rannu gwybodaeth o'r fath fydd ar y sail bod rhannu'r wybodaeth hon. Mae data categori arbennig yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd (erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU), yn arbennig mae'n angenrheidiol ar gyfer:

- dibenion atal neu ganfod gweithred(au) anghyfreithlon - paragraff 10 Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018
- dibenion diogelu aelodau'r cyhoedd rhag anonestrwydd, camymddwyn neu ymddygiad arall sy'n ddifrifol amhriodol, anaddasrwydd neu anghymhwysedd, camreoli yng ngweinyddiad corff neu gymdeithas, neu fethiannau mewn gwasanaethau a ddarperir gan gorff neu gymdeithas. - paragraff 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018
- dibenion cydymffurfio â gofyniad rheoliadol, neu gynorthwyo personau eraill i gydymffurfio ag ef (gan gynnwys gofyniad a osodir gan ddeddfwriaeth neu gan berson wrth arfer swyddogaeth a roddir gan ddeddfwriaeth neu ofyniad sy'n rhan o egwyddorion arfer da a dderbynnir yn gyffredinol mewn perthynas â math o gorff neu weithgaredd) sy'n golygu bod person yn cymryd camau i sefydlu a yw person arall wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon, neu wedi bod yn rhan o anonestrwydd, camymddwyn neu ymddygiad arall sy'n ddifrifol amhriodol - paragraff 12 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018

- dibenion amddiffyn unigolion sydd mewn perygl o esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu amddiffyn lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn (paragraff 18 Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018)

Er y bydd GTADC yn dibynnu'n bennaf ar yr amod uchod ar gyfer rhannu data categori arbennig gyda'r Adolygiad, gallai GTADC hefyd ddibynnu ar yr amodau canlynol mewn rhai achosion:

- dibenion cyflawni rhwymedigaethau GTADC ac arfer hawliau penodol GTADC ym maes cyflogaeth (erthygl 9(2)(b) GDPR y DU)
- sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol (erthygl 9(2)(f) GDPR y DU)
- Yn benodol, mae angen rhannu gwybodaeth o'r fath ar gyfer:
- am yr un rhesymau uchod ac at ddibenion cyflawni neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau mewn cysylltiad â chyflogaeth – paragraff 1 Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018.

Ni fydd GTADC fel arfer yn dibynnu ar ganiatâd i ddatgelu'r data categori arbennig i'r Adolygiad. Fodd bynnag, mewn rhai achosion lle bo'n briodol, bydd GTADC yn dibynnu ar ganiatâd i ddatgelu data categori arbennig i'r Adolygiad.

Mae gan GTADC hefyd ddogfen bolisi briodol yn ei lle ar gyfer rhannu data categori arbennig, sydd ar gael ar gais.

Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei diogelu

Mae GTADC a'r Adolygiad wedi cytuno ar brotocol rhannu gwybodaeth sy'n nodi'r gweithdrefnau y bydd GTADC a'r Adolygiad yn eu dilyn mewn perthynas â rhannu Data Personol a Rennir a'r mesurau diogelu a fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y wybodaeth bersonol a rennir yn cael ei rhannu. Mae data rhwng GTADC a'r Adolygiad yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Byddwn yn cymryd mesurau priodol i amddiffyn eich hawliau a rhyddid unigol, a allai gynnwys:

- sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel gyda'r Adolygiad trwy ystafell ddata ar-lein ddiogel yn unig gyda chyfyngiadau mynediad a heb drosglwyddo'r data y tu allan i'r DU.
- lle bo'n ddigonol at ddiben yr Adolygiad, darparu gwybodaeth i'r Adolygiad heb enwi unigolion
- dim ond rhannu gwybodaeth yr ydym yn ei hystyried yn angenrheidiol, yn deg neu'n gymesur i'w darparu i'r Adolygiad
- cyfyngu mynediad at wybodaeth a ddarperir i'r Adolygiad i'r unigolion hynny â rheswm dilys dros gael mynediad i'r cofnodion

**Rhannu data personol**

Dim ond gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth yr Adolygiad y bydd GTADC yn ei rhannu gyda'r Adolygiad. Bydd Data Personol a Rennir a ddarperir i'r Adolygiad yn cael ei gadw'n gyfrinachol ac ni chaiff ei ddefnyddio at ddibenion heblaw'r rhai a nodir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn ac yn hysbysiad preifatrwydd yr Adolygiad.

Gallai'r Cadeirydd rannu'r Data Personol a Rennir â thîm cymorth yr Adolygiad (fel y cafodd ei benodi'n unol â'r Cylch Gorchwyl). Ni fydd yr Adolygiad yn rhannu'r Data Personol a Rennir y tu allan i'r Adolygiad. Fodd bynnag, er y bydd y Cadeirydd yn gyffredinol yn cynnal yr Adolygiad mewn modd cyfrinachol, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl, mae hyn yn amodol ar y canlynol:

- os bydd achos sifil yn ymwneud ag unrhyw fater a oedd yn destun yr Adolygiad yn cael ei godi yn erbyn GTADC neu'r Adolygiad, gallai llys neu dribiwnlys orchymyn yr Adolygiad i ddatgelu dogfennaeth a gwybodaeth mewn perthynas â'r Adolygiad

- os bydd person yn datgelu gwybodaeth sy'n codi pryder ynghylch diogelwch neu les unigolyn, gallai'r Cadeirydd benderfynu datgelu'r wybodaeth hon i GTADC a/neu gorff rheoleiddio er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch.

- os bydd person yn datgelu gwybodaeth sy'n codi pryder ynghylch trosedd posibl, gallai'r Cadeirydd benderfynu adrodd y mater i GTADC a/neu i'r heddlu

- gallai fod yn ofynnol i'r Cadeirydd ddatgelu'r Data Personol a Rennir lle bo hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith

Os bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu i GTADC, corff rheoleiddio neu'r heddlu, bydd y Cadeirydd yn gwneud ymdrechion rhesymol i osgoi datgelu pwy yw unrhyw berson sydd wedi gofyn am anhysbysrwydd ond nid yw hyn wedi'i warantu. Os daw'n angenrheidiol i ddatgelu pwy yw'r person sydd wedi darparu'r wybodaeth, bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r person hwnnw ymlaen llaw ac eithrio pan fydd perygl uniongyrchol i iechyd neu ddiogelwch.

Os bydd person yn datgelu gwybodaeth sy'n arwain at angen i lansio ymchwiliad disgyblu, neu os yw'r wybodaeth yn berthnasol i broses ddisgyblu barhaus yn erbyn un neu fwy o weithwyr presennol y Gwasanaeth, bydd y Cadeirydd Annibynnol yn gofyn am ganiatâd yr unigolyn. a ddarparodd y wybodaeth i ddatgelu'r wybodaeth a'u hunaniaeth. Ni fydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio heb ganiatâd y person oni bai bod llys neu dribiwnlys yn gorchymyn datgelu. Sylwch, os na roddir caniatâd gan ddarparwr y wybodaeth i ddefnyddio'r wybodaeth ac i ddatgelu pwy yw'r unigolyn at ddibenion camau disgyblu, gallai hynny lesteirio gallu'r Gwasanaeth i gymryd camau disgyblu.

**Diogelwch**

Mae GTADC a'r Adolygiad wedi cytuno mai dim ond trwy borth ar-lein diogel y bydd y Data Personol a Rennir yn cael ei rannu.

Hefyd, mae GTADC a/neu'r Adolygiad wedi cynnal, a/neu'n cynnal, gwiriadau priodol i sicrhau bod unrhyw broseswyr trydydd parti sy'n prosesu'r Data Personol a Rennir yn darparu gwarantau digonol i gydymffurfio â'r Deddfau diogelu data cyn iddynt gael eu penodi ac maent dan rwymedigaeth gytundebol i gydymffurfio â'r gofynion gorfodol gofynnol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, yn enwedig i gymryd yr holl fesurau technegol a threfniadol priodol (gan gynnwys sicrhau cyfrinachedd, mynediad rheoledig, prosesu a diogelwch, Data Personol a Rennir).

**Cadw**

Bydd GTADC yn cadw'r Data Personol a Rennir yn unol â'r cyfnodau a nodir yn hysbysiad preifatrwydd GTADC.

Bydd yr Adolygiad yn cadw'r Data Personol a Rennir am y cyfnodau a nodir yn hysbysiad preifatrwydd yr Adolygiad.

**Trosglwyddo data rhyngwladol**

Fel rhan o rannu'r Data Personol a Rennir, gellir prosesu'r Data Personol a Rennir y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r AEE. Er enghraifft, gallai'r porth ar-lein diogel brosesu (e.e. trwy storio) y Data Personol a Rennir mewn lleoliadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r AEE. Os yw'r Data Personol a Rennir yn cael ei brosesu y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu'r AEE, bydd prosesu o'r fath yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data berthnasol, gan sicrhau bod mesurau diogelu priodol ar waith. Gallai hyn gynnwys y mesurau diogelu canlynol:

- Bod penderfyniad digonolrwydd yn cadarnhau bod y wlad lle mae'r Data Personol a Rennir yn cael ei brosesu yn sicrhau lefel ddigonol o amddiffyniad i hawliau a rhyddid gwrthrych y data.

- Bod mesurau diogelu priodol ar waith megis rheolau corfforaethol rhwymol, cymalau cytundebol safonol, cod ymddygiad cymeradwy neu fecanwaith ardystio.

- Bod trosglwyddiad yn angenrheidiol am un o'r rhesymau eraill a nodir mewn deddfwriaeth diogelu data gan gynnwys rhesymau budd y cyhoedd, i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol, i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol, neu, mewn rhai achosion, ar gyfer ein buddiannau cyfreithlon .

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Mae'r Adolygiad yn gweithredu'n annibynnol ar GTADC. O'r herwydd, nid oes gan GTADC hawl mynediad at gyfathrebiadau o fewn yr Adolygiad neu rhwng yr Adolygiad ac eraill, tystiolaeth a gasglwyd gan yr Adolygiad, ei asesiad o dystiolaeth o'r fath, a/neu gyngor cyfreithiol a roddwyd i'r Adolygiad a'r Cadeirydd.

Nid yw'r Cadeirydd a'r Adolygiad yn awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 na Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ac nid ydynt yn cadw gwybodaeth ar ran GTADC.

**Beth yw eich hawliau**

Mae cyfreithiau diogelu data yn rhoi hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â'u data personol, gan gynnwys

:

- gofyn am wybodaeth am sut mae eu data personol yn cael ei ddefnyddio
- gofyn am gael mynediad i'r data personol y mae GTADC yn ei gadw amdanynt, gan gynnwys copi o'u data personol
- gwrthwynebu prosesu eu data personol
- gofyn i unrhyw wallau yn eu data personol gael eu cywiro heb unrhyw oedi gormodol;
- gofyn i unrhyw ddata personol anghyflawn gael ei gwblhau, gan gynnwys drwy gyfrwng datganiad atodol
- gofyn i'w data personol gael ei ddileu os nad oes cyfiawnhad iddo gael ei brosesu
- gofyn am gyfyngu ar brosesu eu data personol

Er mwyn arfer eich hawliau cyfreithiol, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch ein defnydd o ddata personol, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddog diogelu data yn y lle cyntaf ar y manylion cyswllt isod.

Mae rhai o'r hawliau hyn yn dibynnu ar y rhesymau pam yr ydym yn datgelu'r Data Personol a Rennir ac efallai bydd rhesymau dilys pam y gallem wrthod i chi arfer eich hawliau. Bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul achos. Os bydd GTADC yn penderfynu nad yw'r hawliau yr ydych yn ceisio eu harfer yn berthnasol, bydd GTADC yn ymateb ac yn egluro'r rhesymau pam na allwn gydymffurfio'n llawn â'ch cais(ceisiadau).

Er enghraifft, gan fod GTADC yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon i rannu Data Personol a Rennir gyda'r Adolygiad, mae gennych yr hawl i wrthwynebu'r defnydd hwn o'ch data personol yn y modd hwn. Fodd bynnag, mae rhesymau dilys pam y gallem wrthod eich gwrthwynebiad, sy'n dibynnu ar y rhesymau penodol dros y gwrthwynebiad ac a yw eich gwrthwynebiad yn gorbwyso GTADC a/neu fuddiannau'r Adolygiad i rannu'r Data Personol a Rennir a budd ehangach y cyhoedd yn yr Adolygiad sy'n derbyn y wybodaeth.

**Cwynion**

Os bydd gennych unrhyw gwynion am sut y gallai GTADC ddefnyddio'ch data personol, yna dylech gysylltu â'n swyddog diogelu data yn y lle cyntaf ar y manylion cyswllt isod.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu â swyddog diogelu data GTADC fel a ganlyn:

Drwy'r post

Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth

Pencadlys Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru

Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

E-bost

LlywodraethuGwybodaeth@decymru-tan.gov.uk

Ffôn 01443232355

**SCG**

Mae gennych hefyd yr hawl i godi unrhyw bryderon sydd gennych gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n goruchwylio deddfwriaeth diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar eu gwefan – https://ico.org.uk/concerns/ neu cewch gysylltu â nhw yma:

The Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113

E-bost: Casework@ico.org.uk

**Adolygiad a newidiadau i'r hysbysiad hwn**

Cyhoeddwyd yr hysbysiad hwn am y tro cyntaf ar 15 Mai 2023 a chafodd ei adolygu ddiwethaf ar 16 Mai 2023. Dyma'r ail fersiwn o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gallai fod yn destun adolygiad. Bydd unrhyw ddiwygiad i'r hysbysiad preifatrwydd yn cael ei amlygu ar y wefan. Os byddwn yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r hysbysiad preifatrwydd hwn, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi mewn cyfathrebiadau dilynol a anfonir gan yr Adolygiad.